Department for Environment Food & Rural Affairs

# HYSBYSIADAU MEWNFORIO



Bydd y canllaw hwn yn eich helpu drwy'r broses o gyflwyno eich hysbysiad mewnforio. Nid yw'n ganllaw pendant, a rhaid i chi ddilyn y canllawiau ar GOV UK ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio.

**ADNABOD EICH RISG I FOD YN BAROD AR GYFER NEWID**

Rhaid i chi hysbysu'r awdurdodau cymwys cyn i lwyth gyrraedd Prydain (Cymru, Lloegr a'r Alban), pan fydd yn cynnwys:

- anifeiliaid byw
- cynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl (cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid)
- bwyd risg uchel a bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid
- planhigion a chynnyrch planhigion

ac mae'r llwyth hwnnw'n ddarostyngedig i reolaethau Glanweithdra a Ffytoiechydol (SPS).

Bydd dilyn y canllawiau ar GOV UK ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio yn helpu i sicrhau bod y broses fewnforio'n cael ei chwblhau'n llwyddiannus ac osgoi cyswllt diangen ag awdurdodau.

Mae dolenni i ganllawiau GOV UK ar gael yn Adran 5.

Mae symud parseli o un busnes y tu allan i Brydain i un arall ym Mhrydain yn ddarostyngedig i'r un gofynion seiliedig ar risg (hysbysiad mewnforio drwy IPAFFS, ardystio a gwirio iechyd, yn dibynnu ar risg) ag unrhyw fewnforio arall o nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol. Bydd symudiadau parseli o'r math hwn hefyd yn dilyn yr un amserlen weithredu ar gyfer rheolaethau Iechydol a Ffytoiechydol.

Mae'r testunau a ddarperir yn yr adran hon wedi eu bwriadu ar gyfer gwybodaeth yn unig – nid oes unrhyw werth cyfreithiol i'r testunau hyn. At ddibenion cyfreithiol, cyfeiriwch at y testunau a gyhoeddwyd yn legislation.gov.uk

# CYNNWYS


04 1 - Cyflwyniad

05 1.1 - Anifeiliaid a nwyddau sy'n dod o dan y canllaw hwn

05 1.2 - Hysbysiadau mewnforio ar gyfer mewnforion o ynys Iwerddon

06 2 - Beth yw hysbysiad mewnforio?

07 2.1 - Y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth

07 2.2 - Prosesau ychwanegol

08 2.3 - Hysbysiadau mewnforio a datganiadau tollau

09 3 - Yr amserlen ar gyfer gwneud hysbysiad mewnforio

10 4 - Sut i wneud hysbysiad mewnforio

10 4.1 - Cofrestru ar gyfer IPAFFS

11 4.2 - Gofyn am ddogfennau ategol ar gyfer y llwyth

11 4.3 - Gwirio cod nwyddau (cod CN) ar gyfer y nwyddau yn y llwyth

12 4.4 - Creu'r hysbysiad mewngludo ar IPAFFS

13 4.5 - Llwytho dogfennau ategol i fyny

13 4.6 - Adolygu'r hysbysiad mewnforio

14 5 - Cymorth ychwanegol

16 Atodiad 1 – Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o wledydd yr Undeb Ewropeaidd/EFTA (o 31/1/2024 ymlaen)

21 Atodiad 2 - Nwyddau risg isel - Hysbysiadau mewnforio ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid risg isel o wledydd yr Undeb Ewropeaidd/EFTA (o 31/1/2024)



Defra

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2023

# 1 CYFLWYNIAD

Pan fo anifeiliaid byw neu lwythi o gynhyrchion anifeiliaid i’w bwyta gan bobl, sgil-gynhyrchion anifeiliaid, bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol yn cael eu mewnforio i Brydain, bydd angen i’r unigolyn (neu’r busnes) sy’n gyfrifol am y llwyth pan fydd yn cyrraedd Prydain gymryd camau i hysbysu’r awdurdodau ymlaen llaw o’r anifeiliaid neu’r cynhyrchion sy’n cyrraedd.  Mae’n bosibl y bydd angen i chi gymryd camau ychwanegol hefyd – edrychwch ar y canllawiau bob amser ar gyfer y math o nwyddau rydych chi’n eu mewnforio – mae’r rhestr o ddolenni i ganllawiau yn adran 5 y daflen hon.

Os byddwch chi neu eich busnes yn gyfrifol am fewnforio ar ôl cyrraedd Prydain, bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall hysbysiadau mewnforio.

Bydd dilyn y canllawiau ar GOV UK ar gyfer y math o nwyddau rydych chi’n eu mewnforio yn helpu i sicrhau bod y broses fewnforio’n cael ei chwblhau’n llwyddiannus ac osgoi cyswllt diangen ag awdurdodau. Mae dolenni i ganllawiau GOV UK ar gael yn adran 5.



## 1.1 Anifeiliaid a nwyddau sy'n dod o dan y canllaw hwn

Bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi os ydych chi wedi eich lleoli yn y Deyrnas Unedig ac yn mewnforio:

- cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) – fel cynhyrchion llaeth (caws, llaeth, iogwrt), wyau, cig, pysgod a chynhyrchion sy'n cynnwys y rhain.
- cynhyrchion bwyd cyfansawdd – fel pitsa, peis a lasagne – nad ydynt wedi eu heithrio rhag rheolaethau mewnforio.
- planhigion a chynhyrchion planhigion rheoledig y mae angen rheoliadau mewnforio Iechydol a Ffytoiechydol ar eu cyfer
- anifeiliaid byw - megis da byw (gwartheg, cywion ieir, tyrcwn, defaid, ceffylau a mwy), pysgod neu bysgod addurnol (nid i'w bwyta).
- cynhyrchion cenhedlol – fel semen, embryonau, öosytau sy'n cael eu casglu neu eu cynhyrchu o anifeiliaid bridio at ddibenion atgenhedlu â chymorth.
- sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) - tail anifeiliaid, plu, croen ac esgyrn, gwaed, braster ac offal nad ydynt i'w bwyta gan bobl.
- bwyd a phorthiant risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid (HRFNAO) – fel cnau daear, resins a pherlysiau o wledydd penodol.

## 1.2 Hysbysiadau mewnforio ar gyfer mewnforion o ynys Iwerddon

Bydd angen hysbysiadau mewnforio o 31 Ionawr 2024 ymlaen ar gyfer llwythi o gynhyrchion anifeiliaid o'r Undeb Ewropeaidd a rhai planhigion a chynhyrchion planhigion a fewnforir o Ynys Iwerddon nad ydynt yn Nwyddau Cymwys o Ogledd Iwerddon. Mae hwn yn ofyniad newydd. Rhaid i hysbysiadau mewnforio gael eu gwneud cyn i'r nwyddau gyrraedd y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio'r System Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant (IPAFFS). Darllenwch ganllawiau GOV UK bob amser ar gyfer eich math o nwyddau – mae dolenni i ganllawiau nwyddau yn adran 5 y daflen hon.

# 2 BETH YW HYSBYSIAD MEWNFORIO?

Dogfen a gyflwynir i'r awdurdodau cymwys gan yr unigolyn ym Mhrydain fydd yn gyfrifol am lwyth pan fydd yn cyrraedd porthladd mynediad ym Mhrydain yw hysbysiad mewnforio.

Mae'r hysbysiad mewnforio yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau cymwys Prydain am y llwyth, gan gynnwys:

- Gwybodaeth am nwyddau: gan gynnwys cod nwyddau, disgrifiad a rhywogaethau, gwybodaeth am bwysau a phacio.
- Gwybodaeth ddaearyddol: gwlad tarddiad y cynnyrch, gwlad y llwyth (y wlad sy'n allforio), y porthladd mynediad i Brydain a chyfeiriad y gyrchfan
- Dyddiad ac amcangyfrif o'r amser cyrraedd yn y porthladd mynediad/safle rheoli ar y ffin
- Gwybodaeth am gludiant: dull teithio ar gyfer y llwyth a manylion adnabod ar gyfer y cludiant, fel enw'r llong neu ddull adnabod yr ôl-gerbyd.
- Manylion cyswllt y traddodwr (yr unigolyn/cwmni sy'n anfon y llwyth i Brydain), y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth ar ôl iddo gyrraedd Prydain a'r traddodai (yr unigolyn/cwmni sy'n derbyn y llwyth mewnforio ym Mhrydain os yw'n wahanol i'r unigolyn cyfrifol).
- Dogfennau ategol fel tystysgrif iechyd allforio, anfoneb fasnachol, dogfen deithio neu fil glanio ac ati.

Mae cyflwyno hysbysiad mewnforio i'r awdurdodau cymwys ym Mhrydain yn orfodol ar gyfer nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS).

Darllenwch ganllawiau GOV UK bob amser ar gyfer eich math o nwyddau – mae dolenni i ganllawiau nwyddau yn adran 5 y daflen hon.

## 2.1 Y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth

Rhaid i'r un a fydd yn gyfrifol am y llwyth pan fydd yn cyrraedd y porthladd mynediad ym Mhrydain ddefnyddio system ar-lein **Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant (IPAFFS)** i greu a chyflwyno'r hysbysiad mewnforio un diwrnod gwaith cyn i'r llwyth gyrraedd Prydain. Mae mwy o wybodaeth yn adran 4.

O 31 Ionawr 2024 ymlaen, bydd yr hysbysiad mewnforio yn newid o fformat IMP i fformat y Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin (CHED) ar gyfer mewnforion cynhyrchion anifeiliaid o'r Undeb Ewropeaidd/EFTA.

Bydd angen i'r sawl sy'n cyflwyno'r hysbysiad mewnforio CHED ar IPAFFS roi tic ei fod yn cytuno â datganiad mai ef/hi yw'r un sy'n gyfrifol am y llwyth ym Mhrydain a bod yr wybodaeth yn yr hysbysiad yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf ei (g)wybodaeth a'i gred/ei chred, a bod cytundeb i gydymffurfio â'r gofynion rheoli swyddogol gan gynnwys talu ffioedd rheolaethau swyddogol a chymryd y camau sy'n ofynnol o ganlyniad i'r archwiliad, pan fydd gwiriadau'n dechrau cael eu cynnal. Edrychwch ar GOV UK i weld y canllawiau diweddaraf ar gyfer eich math o nwyddau yn adran 6.

Am y rheswm hwn, bydd angen i'r sawl sy'n gyfrifol am y llwyth gael cyfeiriad ffisegol yn y Deyrnas Unedig hefyd. Mae angen i gynhyrchwyr ac allforwyr yn yr Undeb Ewropeaidd/EFTA sy'n gyfrifol am y broses mewnforio o'r dechrau i'r diwedd, er enghraifft y Doll Danfon a Dalwyd, ond nad ydynt yn endidau yn y Deyrnas Unedig ac nad oes ganddynt gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, gynllunio yn awr i fodloni'r gofyniad hwn.

Cyflwynwyd hysbysiad mewnforio CHED ar gyfer symud anifeiliaid byw yn fasnachol o wledydd yr Undeb Ewropeaidd/EFTA ym mis Tachwedd 2023.

## 2.2 Prosesau ychwanegol

Mae'n bosibl y bydd prosesau ychwanegol, fel ardystio iechyd neu wiriadau ac archwiliadau, y bydd angen i chi eu dilyn ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw penodol, cynhyrchion anifeiliaid, cynhyrchion cenhedlol, bwyd risg uchel a bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion. Edrychwch ar y dudalen ar GOV UK sy'n berthnasol i'ch math o nwyddau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf – edrychwch ar y tabl yn adran 5.

## 2.3 Hysbysiadau mewnforio a datganiadau tollau

Cyflwynir hysbysiadau mewnforio ar IPAFFS, a chyflwynir datganiadau tollau ar Wasanaeth Datganiadau Tollau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CDS) neu CHIEF. Mae IPAFFS a CDS/CHIEF yn wasanaethau ar wahân. Mae'n bosibl eich bod chi eisoes yn defnyddio asiant tollau neu anfonwr nwyddau i lenwi'r datganiad tollau ar eich rhan.

Mae'r cyfeirnod hysbysiad mewnforio wedi ei gynnwys yn y datganiad tollau, felly mae'n ddefnyddiol creu'r hysbysiad mewnforio yn gyntaf. Mae angen cyfeirnod yr hysbysiad mewnforio mewn fformat gwahanol yn y datganiad tollau:

- Hysbysiad mewnforio yn IPAFFS: CHEDP.GB.2023.1234567
- Hysbysiad mewnforio yn CDS: GBCHD2023.1234567

P'un ai ydych chi'n cyflwyno'r hysbysiad mewnforio a'r datganiad tollau eich hun neu'n defnyddio darparwr gwasanaeth fel asiant tollau neu anfon nwyddau, gwnewch yn siŵr bod gan y ddau gyflwyniad wybodaeth gyson am y llwyth, yn benodol

- cyfeirnod yr hysbysiad mewnforio
- Pwysau net
- Cod nwyddau (CN)

Dylech bob amser wirio cyflwyniadau a wneir ar eich rhan a gofyn am gywiro unrhyw wall mewn modd amserol.

**O 31 Ionawr 2024 ymlaen, ni fydd cod dogfen 999L yn cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer datganiadau mewnforio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau (CDS).** I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/guidance/customs-declaration-service-cds-waiver-codes-forimports-replacing-999l



# 3 AMSERLEN AR GYFER GWNEUD HYSBYSIAD MEWNFORIO

Rhaid i'r un sy'n gyfrifol am y llwyth gyflwyno hysbysiad mewnforio i'r awdurdodau cymwys **un diwrnod gwaith** cyn y disgwylir i lwyth gyrraedd porthladd mynediad neu safle rheoli ar y ffin ym Mhrydain. Gallwch gyflwyno eich hysbysiad hyd at 30 diwrnod cyn i'ch llwyth gyrraedd.

**Pan fydd gwiriadau ar y ffin ar waith ar gyfer nwyddau penodol,** mae rhai porthladdoedd neu safleoedd rheoli ar y ffin yn cefnogi busnesau sydd â chyfyngiadau logistaidd, fel cynnyrch silff byr, drwy gynnig **amserlen hysbysu mewnforio is** o leiaf **4 awr** cyn y bwriedir i'r llwyth gyrraedd.

Cysylltwch â'r porthladd mynediad o'ch dewis neu'r safle rheoli ar y ffin i gael gwybod a ydynt yn cynnig yr ateb hwn, a elwir yn **randdirymiad**.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r angen am randdirymiad.

Dim ond os yw gwiriadau'n rhan o'r rheolyddion mewnforio ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio y bydd angen rhanddirymiad.

Edrychwch ar dudalennau mewnforio GOV UK ar gyfer eich math o nwyddau i gael rhagor o wybodaeth – mae'r dolenni yn adran 6.

Mae rhestr o safleoedd rheoli ar y ffin mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar **GOV UK**. Mae hyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i'r safleoedd rheoli ar y ffin newydd ddod yn weithredol.

# 4 SUT I WNEUD HYSBYSIAD MEWNFORIO

## 4.1 Cofrestru ar gyfer IPAFFS

Os nad ydych eisoes yn defnyddio **IPAFFS – y System Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant** – sef system hysbysu mewnforio ar-lein y Deyrnas Unedig, bydd angen i chi gofrestru. Dylech ddefnyddio cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig i gofrestru – gweler adran 2.1 am ragor o wybodaeth.

Wrth gofrestru, bydd yn gofyn i chi greu cyfrif Porth y Llywodraeth – mae'n bosibl bod gennych chi un yn barod os ydych chi'n defnyddio gwasanaethau ar-lein eraill Defra neu Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Gallwch wedyn sefydlu IPAFFS gyda'ch gwybodaeth busnes cofrestredig yn y Deyrnas Unedig.

Os ydych chi'n cofrestru ar ran cwmni, yr unigolyn cyntaf i gofrestru ar IPAFFS fydd gweinyddwr cyfrif IPAFFS y cwmni.

Cofrestru ar gyfer IPAFFS:
**https://www.gov.uk/guidance/import-of-products-animals-food-and-feedsystem**

Mae gan **sianel YouTube** yr Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) fideos cam wrth gam ar gofrestru ar gyfer IPAFFS a gwneud hysbysiadau mewnforio.

Mae gan Borth Iechyd Planhigion Defra ganllawiau a fideos cam wrth gam ar ddefnyddio IPAFFS i hysbysu ymlaen llaw am fewnforio planhigion a chynnyrch planhigion **Canllawiau IPAFFS ar gyfer Planhigion - y Deyrnas Unedig Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion (defra.gov.uk)**

## 4.2 Gofyn am ddogfennau ategol ar gyfer y llwyth

Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hysbysiad mewnforio yn gofyn am wybodaeth y gellir dod o hyd iddi mewn Tystysgrifau Iechyd Allforio (EHC), lle mae'r rhain yn ofynnol ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio. Os nad oes Tystysgrif Iechyd Allforio neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, edrychwch ar y **dogfennau masnachol** sy'n cael eu creu'n gyffredin ar gyfer mewnforio llwythi. Gall y rhain gynnwys dogfennau tollau, anfonebau masnachol, dogfennau tollau, dogfennau llwytho, maniffestau llongau. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael rhagor o wybodaeth am gynnyrch categori risg isel.

Gall gofyn am y dogfennau hyn gan yr allforiwr (asesydd) cyn i chi ddechrau creu hysbysiad mewngludo gyflymu'r broses hysbysiadau mewngludo.

Gallwch gadw hysbysiad mewngludo sydd wedi ei gwblhau'n rhannol fel drafft yn IPAFFS os oes angen i chi ofyn am wybodaeth ychwanegol. Cofiwch fynd yn ôl a chwblhau a chyflwyno'r hysbysiad mewnforio.

## 4.3 Gwirio cod nwyddau (cod CN) ar gyfer y nwyddau yn y llwyth

Chwiliwch am y cod nwyddau (a elwir hefyd yn Rhif Nwyddau neu'r cod CN) ar yr adnodd Tariffau Masnach **Trade Tariff: look up commodity codes, duty and VAT rates GOV.UK (www.gov.uk)** ar gyfer yr holl nwyddau sydd yn y llwyth. Gall hefyd fod ar y dystysgrif iechyd neu'r dogfennau tollau.

Bydd angen y cod nwyddau arnoch chi pan fyddwch chi'n creu'r hysbysiad mewnforio a'r datganiad tollau hefyd – dylai'r hysbysiad a'r datganiad bob amser gynnwys gwybodaeth gyson.

Mae gan IPAFFS ddewisydd cod nwyddau yn seiliedig ar enw'r nwyddau, ond mae'n helpu i wirio'r cod nwyddau ymlaen llaw os ydych chi'n ansicr.

**Pwysig:** O 31 Ionawr 2024 ymlaen, ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid o'r Undeb Ewropeaidd/EFTA, bydd angen i chi hefyd wybod categori risg mewnforio'r math o nwyddau. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gymryd camau ychwanegol os yw eich cynnyrch yn risg uchel neu ganolig. Mae canllawiau ar gael ar GOV UK ar gyfer **mewnforion o'r Undeb Ewropeaidd** i Brydain.

## 4.4 Creu’r hysbysiad mewnforio ar IPAFFS

I greu hysbysiad, mewngofnodwch i IPAFFS a dewis ‘Creu hysbysiad’. Dewiswch y math o hysbysiad mewnforio y mae angen i chi ei wneud h.y. ar gyfer cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid.

Bydd IPAFFS yn eich annog i ateb cyfres o gwestiynau ar y llwyth, gan gynnwys:

- gwlad y tarddiad
- cod nwyddau a rhywogaethau
- pwysau net
- rheswm dros symud i Brydain (e.e. i’w werthu ym Mhrydain, ar gyfer ei gludo)
- manylion cyswllt yr allforiwr, y mewnforiwr a/neu’r derbynnydd
- y gyrchfan a’r cyfeiriad
- porthladd mynediad ym Mhrydain
- dyddiad mynediad i Brydain
- manylion cludiant, er enghraifft cofrestru cerbyd, dull adnabod siasi ôl-gerbyd
- manylion cyswllt (e-bost a rhif ffôn) ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â symud y llwyth - er enghraifft, gyrrwr, cludwr, asiant ac ati

Mae’r rhestr lawn yn atodiad y ddogfen hon.

Defnyddiwch y botwm gwybodaeth (i) sy’n ymddangos ar y sgrin ar gyfer pob cwestiwn os oes angen help arnoch i ddeall beth mae’r cwestiwn yn gofyn amdano.

**Gallwch gadw’r hysbysiad mewnforio fel drafft ar unrhyw adeg. Defnyddiwch y Dangosfwrdd i adolygu unrhyw wybodaeth sy’n weddill sydd ei hangen.**

**Pwysig: O 31 Ionawr 2024 ymlaen, ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ac EFTA, mae’n bosibl y gwelwch gwestiwn ychwanegol yn gofyn i chi ddewis y categori risg mewnforio (canolig neu isel), yn dibynnu ar y nwyddau. Edrychwch ar y canllawiau ar gategorïau risg ar GOV UK ar gyfer mewnforion o’r Undeb Ewropeaidd i Brydain.**

## 4.5 Llwytho dogfennau ategol i fyny

Dylech lwytho dogfennau ategol i fyny fel rhan o'r hysbysiad mewngludo. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Tystysgrif Iechyd Allforio wedi ei llofnodi gan y milfeddyg swyddogol yn y wlad sy'n allforio (os oes angen)
- Trwydded mewngludo
- Dogfen dollau neu fil llwytho
- Anfoneb fasnachol neu ddogfennau masnachol eraill

I gael rhagor o wybodaeth am fewnforio nwyddau penodol, gan gynnwys y dogfennau sydd eu hangen, defnyddiwch y tabl yn adran 5.

Mae canllaw hefyd ar allforio tystysgrifau iechyd, gan gynnwys defnyddio tystysgrifau PDF wedi eu dilysu, ar GOV UK.

## 4.6 Adolygu'r hysbysiad mewnforio

Ar ôl i chi gwblhau'r holl adrannau yn yr hysbysiad mewnforio, byddwch yn cael cyfle i adolygu'r wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi a llwytho dogfennau ategol eraill i fyny.

Mae'r cam adolygu'n bwysig felly peidiwch â'i hepgor. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi yn gywir er mwyn sicrhau nad yw eich llwyth yn cael ei ddal ar y ffin ar gyfer archwiliadau ychwanegol.

Fel rhan o'r hysbysiad mewnforio, gofynnir i chi nodi eich bod chi wedi darllen y datganiad ar ddiwedd yr hysbysiad. Darllenwch a thiciwch y blwch, ac yna cliciwch ar Cyflwyno.

**Pwysig – NI fydd yr hysbysiad mewnforio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdodau cymwys nes eich bod chi wedi clicio ar y botwm Cyflwyno eich hun. Rhaid i chi gofio clicio ar y botwm Cyflwyno.**

Pan fyddwch chi'n cyflwyno, byddwch yn cael cyfle i lwytho i lawr yr hysbysiad mewngludo a byddwch yn ei weld wedi ei restru yn adran Dangosfwrdd IPAFFS.

# 5 CYMORTH YCHWANEGOL

Cyn i chi fewnforio llwyth i Brydain, edrychwch ar y broses y bydd angen i chi ei dilyn ar GOV UK ar gyfer y nwyddau rydych chi'n eu mewnforio:

| | |
|---|---|
| **Anifeiliaid byw neu gynhyrchion anifeiliaid o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd** | https://www.gov.uk/guidance/importing-live-animals-or-animal-products-from-non-eu-countries |
| **Anifeiliaid byw a chynhyrchion cenhedlol o'r Undeb Ewropeaidd i Brydain** | https://www.gov.uk/guidance/import-live-animals-and-germinal-products-from-the-eu-to-great-britain |
| **Pysgod i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl a chynhyrchion pysgodfeydd** | https://www.gov.uk/guidance/importing-or-moving-fish-to-the-uk |
| **Bwyd a diod o'r Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon i Brydain.** | https://www.gov.uk/guidance/import-or-move-food-and-drink-from-the-eu-and-northern-ireland-to-great-britain |
| **Cynhyrchion cyfansawdd o'r Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon i Brydain.** | https://www.gov.uk/guidance/import-or-move-composite-products-from-the-eu-and-northern-ireland-to-great-britain |
| **Planhigion a chynnyrch planhigion** | https://planthealthportal.defra.gov.uk/trade/imports/ |
| **Llwythi cymysg a grwpiau (cynnyrch anifeiliaid)** | https://www.gov.uk/guidance/import-groupage-or-mixed-load-consignments-of-animal-products-into-great-britain-from-2024 |
| **Trawsteithiau a phont dir Prydain** | https://www.gov.uk/guidance/transiting-animals-and-animal-products-through-great-britain#eu-to-great-britain-to-eu-transits |

**Os oes angen help technegol arnoch gyda hysbysiadau mewngludo ar IPAFFS:**

- Ffoniwch linell gymorth yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar **0330 041 6999**
- e-bost **APHAServiceDesk@apha.gov.uk**

**Os oes angen help arnoch i gwblhau hysbysiadau mewnforio ar IPAFFS ar gyfer:**

- anifeiliaid byw neu POAO, anfonwch e-bost at: **imports@apha.gov.uk**
- HRFNAO, e-bost i **imported.food@food.gov.uk**
- planhigion a chynnyrch planhigion, gallwch ddarllen yr IPAFFS i gael arweiniad ar blanhigion neu anfon e-bost i **phsi-importers@apha.gov.uk**

ATODIAD 1

# DOGFEN COFNOD IECHYD CYFFREDIN

## HYSBYSIAD MEWNFORIO AR GYFER CYNHYRCHION ANIFEILIAID A FEWNFORIWYD O'R UNDEB EWROPEAIDD/ EFTA

Rhestr ddangosol o gwestiynau hysbysiad mewnforio (meysydd) ar gyfer y Ddogfen Mynediad Iechyd Gyffredin (CHED) Rhan 1 ar gyfer cynnyrch anifeiliaid o **31 Ionawr 2024.**

| Pwnc | Maes | Nodiadau |
|---|---|---|
| Creu'r CHED cywir ar gyfer eich llwyth | Beth ydych chi'n ei fewnforio? | Dewiswch o blith: Anifeiliaid byw; Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid; Bwyd risg uchel a bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid; Planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill. |
| Gwybodaeth ddaearyddol | Gwlad y tarddiad | Gwlad tarddiad y nwyddau yn y llwyth |
| | Gwlad y llwyth / anfon | Y wlad lle cafodd y llwyth ei allforio |
| | Rhanbarth tarddiad | Ie/Na - atebwch ie ar gyfer anifeiliaid neu gynhyrchion y mae mesurau rhanbartholi yn effeithio arnynt. Gellir rhoi gwybodaeth am y Dystysgrif Iechyd Allforio (lle mae angen un) neu edrychwch ar wybodaeth neu ganllawiau diweddaraf GOV UK ar gyfer eich math o nwyddau - dolenni yn adran 5. |

## Dogfen Mynediad Iechyd (CHED) Rhan 1 ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o 31 Ionawr 2024

| **Pwnc** | **Maes** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am nwyddau | Cod nwyddau, math o nwyddau a rhywogaethau<br><br>Sefydliad tarddiad cymeradwy | Offeryn dewis i helpu i ddewis cod nwyddau yn seiliedig ar ddisgrifiad o'r nwyddau.<br><br>Rhestr o sefydliadau cymeradwy (ar GOV UK) |
| Llwyth | Beth yw pwrpas y llwyth?<br><br>Manylion llwythi fel pwysau (net a gros), nifer y pecynnau, y math o ddeunydd pacio.<br><br>A yw'r llwyth yn cadarnhau'r gofynion rheoleiddiol? | Dewiswch o blith y canlynol.<br><br>Cymryd o ddogfennau a ddarperir gan allforiwr, e.e. tystysgrif iechyd, dogfen dreth.<br><br>Datganiad ie/na – mae gan adran 5 ddolenni i ganllawiau ar GOV UK yn ôl math o nwyddau – edrychwch ar y canllawiau bob amser cyn mewnforio. |

## Dogfen Mynediad Iechyd (CHED) Rhan 1 ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o 31 Ionawr 2024

| Pwnc | Maes | Nodiadau |
|---|---|---|
| Manylion cyswllt | Mewnforiwr a derbynnydd (os yw'n wahanol i'r mewnforiwr)<br><br>Anfonwr neu allforiwr<br><br>Manylion cyswllt enwebedig<br><br>Cyfeiriad y sefydliad (cangen) | Mae'r anfonwr yn cael ei lenwi'n awtomatig o fanylion y mewnforiwr, ond mae modd newid hwn os ydynt yn wahanol.<br><br>Ychwanegwch fanylion cyswllt yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r daith gludo gan gynnwys cludwyr – negeseuon e-bost a rhifau ffôn symudol i dderbyn negeseuon SMS.<br><br>Ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth ym Mhrydain |
| Mynediad i Brydain | Porth Mynediad<br><br>Amcan o'r amser cyrraedd<br><br>Lleoliad y gyrchfan | |

## Dogfen Mynediad Iechyd (CHED) Rhan 1 ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o 31 Ionawr 2024

| Pwnc | Maes | Nodiadau |
|---|---|---|
| Dogfennau ategol | Llwythwch fersiynau PDF o'r dogfennau cysylltiedig i fyny.  Ychwanegu rhifau cyfeirnod dogfen (lle bo'n berthnasol)<br><br>Dogfennau IUU<br><br>Dogfennau ar gyfer rheolaethau nad ydynt yn Iechydol a Ffytoiechydol | Llwytho dogfennau i fyny sy'n helpu Asiantaethau Iechyd Planhigion i asesu'r llwyth, fel tystysgrifau iechyd, dogfennau treth, dogfennau cludo ar awyrennau, dogfennau masnachol fel anfonebau.<br><br>O 30 Ebrill 2024 ymlaen, dylid llwytho dogfennau IUU i fyny os yw'r math o nwydd yn bysgod neu'n gynhyrchion pysgodfeydd nad ydynt wedi eu heithrio.<br><br>Dilynwch y canllawiau ar GOV UK bob amser. |
| Tystysgrif Iechyd Allforio (ar gyfer nwyddau categori risg uchel a chanolig) | Llwythwch i fyny ffeil PDF o'r Dystysgrif Iechyd Allforio. Gall hwn fod yn dystysgrif PDF y gellir ei dilysu. Edrychwch ar y canllawiau ar gyfer eich math o nwyddau - dolenni yn adran 5. | Edrychwch ar dudalen GOV UK i weld y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio i gael gwybod a oes angen tystysgrif iechyd allforio. |
| Datganiad | Gofynnir i'r sawl sy'n cyflwyno'r hysbysiad mewnforio ddatgan mai ef/hi fydd yr un sy'n gyfrifol am y llwyth pan fydd yn cyrraedd porth mynediad ym Mhrydain. | |

## Y Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin newydd - rhestr ddangosol o gwestiynau (meysydd) hysbysu ynghylch mewnforio o 31 Ionawr 2024 (parhad)

| Pwnc | Maes | Nodiadau |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | Dull cludo (ee llong) Adnabod cludiant (enw'r cludwr, rhif cofrestru'r cerbyd) Cynhwysydd neu drelar (oes/nac oes) - os oes, rhif adnabod (a rhif y sêl os defnyddiwyd sêl swyddogol) Amodau cludiant (tymheredd) | |
| Datganiad | Gofynnir i'r sawl sy'n cyflwyno'r hysbysiad mewnforio ddatgan mai ef/hi fydd yr un sy'n gyfrifol am y llwyth pan fydd yn cyrraedd porth mynediad ym Mhrydain. | O 30 Ebrill 2024 ymlaen (ac eithrio llwythi'r Undeb Ewropeaidd o ynys Iwerddon) mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y llwyth yn cael ei gyflwyno mewn safle rheoli ar y ffin os caiff ei alw am archwiliadau, a thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus. |

ATODIAD 2

# NWYDDAU RISG ISEL

## HYSBYSIADAU MEWNFORIO AR GYFER CYNHYRCHION ANIFEILIAID RISG ISEL A FEWNFORIWYD O'R UNDEB EWROPEAIDD/ EFTA

O 31 Ionawr 2024 ymlaen, bydd dull newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer rheolaethau mewnforio Iechydol a Ffytoiechydol ar lwythi a fewnforir o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ac EFTA. Ni fydd angen Tystysgrif Iechyd Allforio ar nwyddau cynnyrch anifeiliaid risg isel, ond bydd angen gwybodaeth arnoch gan y cynhyrchydd/allforiwr i ddangos bod y cynnyrch yn risg isel, gan gynnwys dogfennau masnachol. Mae canllawiau ar gael ar GOV UK ar ddogfennau masnachol ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio (edrychwch ar adran 5 y daflen hon).

Mae gwybodaeth gan fasnachwyr yn dangos bod rhai busnesau eisiau gwybod ble i gael yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau eu hysbysiad mewnforio ar IPAFFS pan nad oes Tystysgrif Iechyd Allforio. Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i gwblhau'r hysbysiad mewnforio ar IPAFFS ar gael yn y dogfennau masnachol a gyflenwir gan eich allforiwr.

Roedd argraffiadau masnachwyr hefyd yn nodi nifer o feysydd lle na fyddai'r wybodaeth o bosibl yn cael ei darparu fel mater o drefn gan yr allforiwr. Mae'r dudalen ganlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o ble i ddod o hyd i'r wybodaeth hon.

## Hysbysiadau mewnforio ar gyfer nwyddau cynnyrch anifeiliaid risg isel o 31 Ionawr 2024 – gwybodaeth ychwanegol

| Maes | Ble mae modd cael yr wybodaeth |
| --- | --- |
| **Cod ansawdd nwyddau** | Bydd yr **offeryn Tariffau Masnach** yn eich helpu i ddod o hyd i'r cod nwyddau (cod CN) sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar gyfer eich nwyddau. |
| **Math o nwyddau** | Mae'r maes hwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am y nwydd - er enghraifft, triniaethau - ac mae'n darparu cwymplen amrywiol o ddewisiadau, yn seiliedig ar y cod nwyddau a ddarparwyd. Er enghraifft:<br>• Codau nwyddau cig: gall y rhestr gynnwys anifeiliaid fferm neu anifeiliaid hela (gwyllt)<br>• Codau nwyddau pysgod: gall y rhestr gynnwys anifeiliaid fferm neu anifeiliaid gwyllt<br>• Codau nwyddau llaeth: gall y rhestr gynnwys triniaethau fel UHT, llaeth wedi ei basteureiddio, llaeth amrwd.<br><br>Gallai'r wybodaeth fod ar gael ar y dogfennau masnachol a ddarperir gan y cynhyrchydd/allforiwr i bennu categori risg y cynnyrch neu becyn y cynnyrch, fel arall gofynnwch am yr wybodaeth yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd/allforiwr rydych chi'n gweithio gydag ef. |

## Hysbysiadau mewnforio ar gyfer nwyddau cynnyrch anifeiliaid risg ise l o 31 Ionawr 2024 – gwybodaeth ychwanegol

| Maes | Ble mae modd cael yr wybodaeth |
|---|---|
| **Nwyddau rhywogaethau** | Mae’r maes hwn yn darparu rhestr o enwau rhywogaethau Lladin sy’n gysylltiedig â’r cod nwyddau. Dewiswch un – gallai’r wybodaeth hon fod yn y dogfennau masnachol, yn y pecyn cynnyrch neu mae’n bosibl y bydd angen i chi ofyn i’r cynhyrchydd/allforiwr am yr wybodaeth hon yn uniongyrchol.<br><br>Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys bos taurus (gwartheg), capra hircus (gafr) a gallus domesticus (cyw iâr).<br><br>Mae’n bosibl y gofynnir i chi hefyd am y dosbarthiad, yn seiliedig ar y cod nwyddau. |
| **Diben y llwyth** | Defnydd/pwrpas arfaethedig y nwyddau (e.e. ar gyfer eu bwyta gan bobl neu borthiant). Dewiswch un – gallai’r wybodaeth hon fod yn y dogfennau masnachol, yn y pecyn cynnyrch neu mae’n bosibl y bydd angen i chi ofyn i’r cynhyrchydd/allforiwr am yr wybodaeth hon yn uniongyrchol.<br><br>Enghraifft: ar gyfer mewnforio i’r farchnad fewnol, gallech ddewis:<br>• defnydd gan bobl<br>• porthiant anifeiliaid<br>• defnydd fferyllol<br>• defnydd technegol<br>• arall |

## Hysbysiadau mewnforio ar gyfer nwyddau cynnyrch anifeiliaid risg isel o 31 Ionawr 2024 - gwybodaeth ychwanegol

| Maes | Ble mae modd cael yr wybodaeth |
|---|---|
| **Tymheredd** | Tymheredd gofynnol y nwyddau wrth eu cludo.<br>Dewiswch un:<br>• amgylchol<br>• wedi ei oeri<br>• wedi ei rewi<br>Gallai'r wybodaeth hon fod mewn dogfennau masnachol, deunydd pacio'r cynnyrch neu mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn i'r cynhyrchydd/allforiwr am yr wybodaeth hon yn uniongyrchol. |
| **Sefydliad tarddiad cymeradwy** | Mae rhestr lawn o **sefydliadau a gymeradwywyd** gan yr Undeb Ewropeaidd ar GOV.UK. |
| **Lleoliad y gyrchfan** | Rhowch y cyfeiriad/cyrchfan lle mae'r nwyddau'n cael eu hanfon ym Mhrydain. Os nad chi yw'r mewnforiwr a'ch bod chi'n gweithredu ar eu rhan (e.e. asiant neu anfonwr nwyddau), bydd angen i chi gael yr wybodaeth hon ganddynt. |

**Diweddarwyd ddiwethaf Rhagfyr 2023**

Dylai mewngludwyr nodi bod hwn yn gyflwyniad i hysbysiadau mewnforio, ac nid yn ganllaw. Nid yw'n rhoi arweiniad ar iechyd anifeiliaid ac amodau iechyd y cyhoedd wrth fewnforio nac amodau eraill y gallai fod angen eu bodloni. **Dylech bob amser wirio'r canllawiau ar GOV UK ar gyfer y math o nwyddau rydych chi'n eu mewnforio.**

Mae'r testunau a ddarperir yn yr adran hon wedi eu bwriadu ar gyfer gwybodaeth yn unig – nid oes unrhyw werth cyfreithiol i'r testunau hyn. At ddibenion cyfreithiol, cyfeiriwch at y testunau a gyhoeddwyd yn legislation.gov.uk

**ADNABOD EICH RISG I FOD YN BAROD AR GYFER NEWID**